# Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol ar drefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir: 6 Rhagfyr 2023
# Adroddiad o'r canfyddiadau




## Cynnwys

Beth oedd diben y sgwrs hon? 2
Beth a ddysgwyd 2
Manteision y trefniadau asesu 2
Y rhwystrau a'r heriau 2
Sut y byddwn yn elwa ar yr hyn a ddysgwyd 3

**Y Tîm Dysgu Sylfaen**
**Ionawr 2024**

## Beth oedd diben y sgwrs hon?

Fe wnaeth y Sgwrs Genedlaethol hon yn ystyried y manteision, yr heriau, y rhwystrau, a'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i weithredu'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

## Beth a ddysgwyd?

### Manteision y trefniadau asesu

Roedd yr effeithiau cadarnhaol ar gyfer **ymarferwyr** yn cynnwys**:**

- Dathlu rôl yr ymarferydd a pha mor bwysig yw'r oedolyn yn y blynyddoedd cynnar, i feithrin hunan-barch a pharatoi plant ar gyfer dysgu gydol oes.
- Llai o bwysau gweinyddol ar ymarferwyr a gwell lles staff.
- Mwy o amser gyda'r plant.
- Mwy o gyfle i fyfyrio a chryfhau deialog broffesiynol.
- Mae arsylwadau ac asesiadau yn fwy cyfunol, ac yn waith tîm.
- Cryfhau sgyrsiau gyda rhieni.
- Annog ymarferwyr i feddwl, siarad ac ystyried gwahanol ffyrdd o wneud pethau.

Mae'r effeithiau cadarnhaol ar gyfer **plant** yn cynnwys:

- Treulio mwy o amser gydag ymarferwyr ac ymgartrefu'n haws.
- Dim deilliannau rhagnodedig yn cael eu gwthio arnynt ond thargedau unigol realistig.
- Cefnogi plant i wneud eu dewisiadau eu hunain.
- Cynllunio'n cael ei arwain gan blant sy'n arwain at blant bodlon, hyderus a brwdfrydig.
- Plant yn cael datblygu sgiliau i gefnogi dysgu gydol oes, gan ddatblygu dychymyg, annibyniaeth a sgiliau datrys problemau yn gynharach nag o'r blaen.
- Yn fwy cynhwysol i ***bob*** plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol.
    - Mae'n haws nodi 'camau bach' sy'n dal i ddangos cynnydd.
    - Ffordd dda o gynnwys llais y plentyn mewn Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion.
    - Dathlu cynnydd - mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gall plentyn ei wneud yn hytrach na'r hyn na all ei wneud.
- Mae'r hyn sy'n cael ei gofnodi am blant yn gadarnhaol, gan helpu i fagu hyder.

Mae'r effeithiau cadarnhaol i **rieni** yn cynnwys:

- Mae gan ymarferwyr amser i ddod i adnabod y teulu a'r cyd-destun ac ymgorffori hynny i'r dysgu.
- Mae barn y rhiant yn cael ei ystyried, gan helpu i adeiladu perthnasoedd diogel ac ymddiriedaeth.
- Mae cynnwys rhieni yn helpu i ehangu'r dysgu i'r cartref.
- Trefniadau adrodd yn ddealladwy, personol ac ystyrlon.
- Mae gwybodaeth yn helpu rhieni i drosglwyddo eu plentyn i'r ysgol neu leoliadau eraill.

Effeithiau cadarnhaol ar **drawsnewid a gweithio mewn partneriaeth**:

- Ymgysylltu cryfach ag asiantaethau ac eraill – a gefnogir gan ddealltwriaeth gyffredin.
- Mae grwpiau ymarferwyr yn cefnogi cysondeb, deialog a rhannu profiadau.
- Cryfhau'r berthynas rhwng ysgolion a lleoliadau.
- Mae barn ymarferwyr yn cael eu gwerthfawrogi fwy, gan gefnogi deialog broffesiynol well.

### Y rhwystrau a'r heriau

Roedd y rhwystrau neu heriau sy'n effeithio ar **ymarferwyr** yn cynnwys:

- Yr amser sydd ar gael i ddeall trefniadau newydd.
- Diffyg hyder (heb arweinyddiaeth gadarn) yn annog dychwelyd i ffyrdd sydd wedi ennill eu plwyf.
- Cadw ymarferwyr yn effeithio ar wybodaeth, profiad ac arbenigedd.

Roedd rhwystrau neu heriau a nodwyd mewn perthynas â **phlant** yn cynnwys:

- Mae plant sydd wedi dod i arfer â thasgau/gweithgareddau wedi'u gosod yn cymryd amser i greu eu dysgu eu hunain.
- Efallai na fydd plant â phresenoldeb isel yn cael profiad eang.
- Lefelau uchel o blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg (ar ôl y pandemig).

Roedd rhwystrau neu heriau a nodwyd mewn perthynas â **rhieni** yn cynnwys:

- Ddim yn deall pwrpas asesu - gan gwestiynu 'pryd mae fy mhlentyn yn mynd i allu darllen neu ysgrifennu ei enw?'

**Ffactorau eraill** a nodwyd fel rhwystrau neu heriau:

<u>Dysgu proffesiynol</u>

- Nid yw rhai ymarferwyr yn ymwybodol bod yr holl ddogfennau Dysgu Proffesiynol ar gael ar Hwb.
- Amrywiaeth o ran y gefnogaeth a'r Dysgu Proffesiynol rhwng awdurdodau lleol.
- Nid yw rhai cymwysterau yn cyd-fynd â'r cwricwlwm neu'r trefniadau asesu.
- Yr amser ar gyfer deialog broffesiynol a Dysgu Proffesiynol.
- Mae angen mwy o enghreifftiau o arferion effeithiol.

<u>Cysondeb</u>

- Gall negeseuon anghyson gan sefydliadau allanol fod yn ddryslyd.
- Trefniadau ar wahân ar gyfer plant 3-5 oed a'r rhai rhwng 0 a 3 oed. Sut maen nhw'n cysylltu â'i gilydd?
- Mae mythau a chamddealltwriaeth yn lledaenu o bryd i'w gilydd gan arwain at arferion anghyson.
- Ysgolion a lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n cael eu hysgogi fwy gan ddata ac nid ydynt yn cyd-fynd.

## Sut y byddwn ni'n elwa ar yr hyn a ddysgwyd?

Roedd y sgwrs yn nodi meysydd lle gallai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gweithgarwch yn y dyfodol, megis codi hyder ymarferwyr, Dysgu Proffesiynol, cefnogi deialog broffesiynol, ac ymgysylltu a chyfathrebu.

Rydym yn annog sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn darparu addysg feithrin o safon, a lleoliadau eu hunain i ystyried y camau y gallent eu cymryd.

Yn sgil hyn,  byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu cyfres o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol i gefnogi gweithredu trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gan gynnwys:
    - enghreifftiau o arferion arsylwi ac asesu effeithiol,
    - sut i ddadansoddi gwybodaeth arsylwi yn effeithiol,
    - enghreifftiau'n dangos sut i ysgrifennu asesiadau effeithiol,
    - cynllunio effeithiol yn ymarferol.

- Sicrhau bod unrhyw asesiad Dysgu Proffesiynol  a gynigir yn addas ac yn cynnwys yr elfennau y mae lleoliadau'n eu nodi fel rhai 'allweddol', fel:

- cynllunio ymatebol
- dysgu a arweinir gan y plentyn, a
- arsylwadau

- Gweithio gyda phartneriaid i ddeall y rhwystrau neu'r heriau o ran ymestyn cefnogaeth awdurdod lleol neu gonsortia i'r holl ymarferwyr a ariennir, a sut y gellid goresgyn y rhain.

- Gweithio gyda phartneriaid i ddeall pa gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar reolwyr ac arweinwyr a sut y gellid cyflawni hyn.

- Gweithio gyda sefydliadau addysg bellach ac uwch i sicrhau cysondeb yng nghynnwys cyrsiau addysg gynnar, yn unol â'r trefniadau presennol.

- Sicrhau mwy o hyrwyddo ar gyfer Hwb, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cael mynediad, argaeledd deunyddiau i rieni/gofalwyr, deunyddiau dysgu/addysgu ac adnoddau Dysgu Proffesiynol.

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod negeseuon sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn gyson.

Yn unol â'r dulliau blaenorol a gymerwyd i ddatblygu a gweithredu cwricwlwm a threfniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod gwaith datblygu yn y dyfodol yn cefnogi arferion effeithiol.

Fel erioed, rydym yn ddiolchgar i'n partneriaid bob amser am eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad cadarnhaol ac am y gefnogaeth ragorol y maent wedi'i darparu i sicrhau bod y Sgwrs Rhwydwaith Genedlaethol hon yn helpu i gryfhau trefniadau'r dyfodol.